


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn / Ffacs: (01824) 703797
e-bost: cyngortrefrhuthun@sirddinbych.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel / Fax: (01824) 703797
e-mail: ruthintowncouncil@denbighshire.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

17 Chwefror 2014

At Faer y Dref a'r Cyngorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 24 CHWEFROR 2014** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Dafydd Williams

Dafydd Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

I wneud cyflwyniad.

4. Y SEFYDLIAD, CASTELL RHUTHUN

I dderbyn cyflwyniad gan Mr Chris Evans, Pennaeth Prosiectau Arbennig, yn dilyn cais am gyfraniad ariannol tuag at y gost o sefydlu ymddiriedolaeth i gymryd drosodd adeiladau'r castell a'r tir.

5. ADRODDIAD Y MAER

6. ADRODDIADAU'R AELODAU

7. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014.

8. MATERION YN CODI

9. PWYLLGOR AMWYNDERAU

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2014.

10. PWYLLGOR CYNLLUNIO

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2013.

11. Y RHYFEL MAWR – CANMLWYDDIANT 1914

I drafod y mater yma.

**12. CYNLLUN ARIAN CYMUDO LLECYNNAU AGORED
CYNNIG GRANT – CAE DDOL – PROSIECT ‘PONT’**

I drafod y mater yma ac i ofyn am estyniad o chwe mis am y cynnig grant uchod.

13. BUDDSODDIAD NAT WEST

(a) I dderbyn llythyr gan Fanc Nat West - cadarnhawyd cwyn y Cyngor Tref a derbyniwyd y swm o £297.50 i'r Cyfrif Busnes sef y Llogau Gros am y 12 mis o fis Medi 2013 (copi glas).

(b) I ystyried buddsoddi'r swm o £35,296.99 sef y balans yng Nghyfrif Busnes Banc Nat West sydd yn ennill 0.05% ar hyn o bryd.

14. DATGANIAD ARIANNOL

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31^{ain} Ionawr 2014 copi gwyrdd).

15. CYFRIFON I'W TALU

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

D.U.	B.T.	Gwasanaeth broadband	*	62.70
519	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
520	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
521	Eglwys Sant Pedr, Rhuthun	Llifoleuadau 2013		756.47
522	Nominet UK.	Prynu dau enw parth gov.uk	*	261.60
523	Fineline Printing & Stationery Ltd	Papur lliw A4	*	7.56
524	Cyngor Sir Ddinbych	Goleuadau Nadolig 2013	*	5,422.25
525	Cymdeithas Cyngorau	Cinio x 2 – cyfarfod Dydd Gwener, 21		29.0
	Gogledd a Chanolbarth Cymru	Chwefror yng Nghei Conna.		
526	Dafydd Williams	Arian Parod – stampiau ayyb		23.60

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £974.02)

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau Nos Lun, 24 Mawrth 2014 fel dyddiad y Cyfarfod Arferol nesaf.